**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET - DYDD GWENER, 22 IONAWR 2021**

**BWRDD STRYDLUN A PHEIRIANNEG Y CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: A.Wingrave a/ac D.Jones

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

M.Roberts, D.Griffiths, P. Jackson, N.Headon a/ac C.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd A Wingrave yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo Cofnodion 17 Ionawr 2020 a 28 Chwefror 2020.

3. **RHAGLEN CAFFAEL PEIRIANNAU TRYMION A CHERBYDAU 2021/2022**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo Rhaglen Caffael Cerbydlu Cerbydau a Pheiriannau Trwm 2021/2022 ar gyfer cerbydau a pheiriannau trwm newydd , fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Bydd gan y cerbydau a'r peiriannau trwm newydd safon Ewropeaidd uwch, a fydd yn galluogi'r cerbydlu i fod yn fwy effeithlon o ran tanwydd drwy ddefnyddio llai o danwydd a lleihau ôl troed carbon y cyngor drwy leihau allyriadau. Mae Trafnidiaeth Integredig hefyd wedi cynnal ymarfer effeithlonrwydd cerbydau i sefydlu defnydd o gerbydau/beiriannau trwm o fewn adrannau gyda'r posibilrwydd o gyflwyno cerbydau trydan llawn a cherbydau/peiriannau trwm allyriadau isel iawn i'r cerbydlu er mwyn lleihau allyriadau carbon sy'n cael eu gollwng o gerbydau a pheiriannau mawr Cerbydlu yr Awdurdod ymhellach. Gwneir hyn ar y cyd â gwelliannau isadeiledd o fewn yr Awdurdod yn y dyfodol a thrwy weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol eraill a chwmnïau.

Datblygir y manylebau i ddarparu ar gyfer gofynion Iechyd a Diogelwch yr awdurdod, a chânt eu trafod gyda'r adrannau sy'n eu defnyddio, gweithgynhyrchwyr a'r adran iechyd a diogelwch i sicrhau bod y cerbydau cywir yn cael eu caffael.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

4. **GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG: LLE PARCIO UNIGOL ARFAETHEDIG I'R ANABL YN HEOL ILLTUD, CASTELL-NEDD**

**Penderfyniad:**

Rhoi cymeradwyaeth i hysbysebu gorchymyn rheoleiddio traffig y Lle Parcio Unigol i'r Anabl yn Rhif 84 Heol Illtyd, Castell-nedd SA10 7SF (fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd) ac os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau, caiff ei weithredu ar y safle fel y'i hysbysebwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Caniatáu i'r ymgeisydd llwyddiannus gynnal ei annibyniaeth a'i ansawdd bywyd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Ymgymerir ag ymarfer ymgynghori pan gaiff y cynllun ei hysbysebu.

5. **GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG: LLE PARCIO UNIGOL ARFAETHEDIG I'R ANABL YN FERRY VIEW, SGIWEN**

**Penderfyniad:**

Rhoi cymeradwyaeth i hysbysebu gorchymyn rheoleiddio traffig y Lle Parcio Unigol i'r Anabl yn Rhif 2 Ferry View, Sgiwen SA10 6BN (fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd) ac os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau, caiff ei weithredu ar y safle fel y'i hysbysebwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Caniatáu i'r ymgeisydd llwyddiannus gynnal ei annibyniaeth a'i ansawdd bywyd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Ymgymerir ag ymarfer ymgynghori pan gaiff y cynllun ei hysbysebu.

6. **GORCHYMYN/GORCHMYNION TRAFFIG, HEOL SANT PAUL A SUNNYBANK ROAD, PORT TALBOT (GWAHARDD AROS, LLWYTHO A DADLWYTHO AR UNRHYW ADEG)**

**Penderfyniad:**

Bod y gwrthwynebiad yn cael ei gadarnhau'n rhannol i orchymyn rheoleiddio traffig Heol St Paul's a Heol Sunnybank, Port Talbot (Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho ar Unrhyw adeg) 2020 (fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd), a bod y cynllun diwygiedig

(fel y nodir yn Atodiad B i'r adroddiad a ddosbarthwyd) yn cael ei roi ar waith ar y safle, a bod y gwrthwynebydd yn cael ei hysbysu'n unol â hynny.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Atal parcio diwahaniaeth er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

7. **GORCHYMYN TRAFFIG: HEOL TALBOT A STRYD BEVERLEY, PORT TALBOT (DIRYMIAD) (AROS CYFYNGEDIG) (UN FFORDD) A (DIM MYNEDIAD)**

**Penderfyniad:**

Bod y gwrthwynebiadau'n cael eu gwrthod ynghylch gorchymyn rheoleiddio traffig Heol Talbot a Stryd Beverley, Port Talbot (Dirymu) (Aros Cyfyngedig) (Un Ffordd) a (Dim Mynediad) 2020 (fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd) a bod y cynllun yn cael ei weithredu ar y safle fel y'i hysbysebwyd a bod y gwrthwynebwyr yn cael eu hysbysu'n unol â hynny.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Darparu trefn barcio gytbwys ac atal parcio diwahaniaeth er budd diogelwch priffyrdd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

## 8. GORCHYMYN TRAFFIG: HEOL CIMLA, CASTELL-NEDD - GWAHARDD AROS AR UNRHYW ADEG

**Penderfyniad:**

Bod y gwrthwynebiadau i orchymyn rheoleiddio traffig Heol Cimla, Cimla, Castell-nedd (Gwahardd Aros ar Unrhyw adeg) 2020 (fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd) yn cael eu cynnal, a bod y cynllun yn cael ei ddisodli gan farciau ffordd *bar H* i'r dreif a bod y sefyllfa'n cael ei monitro wrth symud ymlaen, a bod y gwrthwynebwyr yn cael eu hysbysu'n yn unol â hynny.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Atal parcio diwahaniaeth er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

## 9. BLAENRAGLEN WAITH 2021

Nodwyd y Blaenraglen Waith.

**CADEIRYDD**